Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

7 Tachwedd, 2025

TEITL: Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

AWDURON: Alwen Williams, Prif Weithredwr
Iwan Evans, Swyddog Monitro
Iain Taylor, AMION Consulting

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y gwaith i sicrhau cymeradwyaeth i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, gan gynnwys diweddariad ar y gymeradwyaeth gan y ddau Gyngor lleol lletyol a'r Memorandwm Dealltwriaeth a'r Llythyr Cynnig Grant.

1.2. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn gofyn am benderfyniad yn ymwneud â'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol arfaethedig.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Derbyn yr Adroddiad Diweddaru a nodi'r gwaith a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a thîm y Parth Buddsoddi, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

2.2. Cymeradwyo'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) drafft rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan ddirprwyo'r hawl i gytuno a chwblhau'r fersiwn terfynol i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, yr Is-gadeirydd ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, fel cynrychiolwyr penodedig y Bwrdd Ymgynghorol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

2.3. Cymeradwyo Rhestr Prosiectau, gweithgareddau a cherrig milltir Blwyddyn 1 a 2 sydd wedi'u drafftio i gefnogi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.

2.4. Cymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft, gan ddirprwyo'r hawl i gytuno a chwblhau'r fersiwn terfynol i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, yr Is-gadeirydd ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, fel cynrychiolwyr penodedig y Bwrdd Ymgynghorol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

Diweddariad ar Gynnydd

3.1. Cytunwyd ar Borth 5 gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac, ynghyd â Phorth 1 i 4, mae gwybodaeth ategol arall wrthi'n cael ei rhoi at ei gilydd mewn Memorandwm Dealltwriaeth sydd yn cael ei gwblhau dan gymeradwyaeth flaenorol y CBC.

3.2. Mae Cynllun Cyflawni Blynyddol 2025/26 a 2026/27 wrthi'n cael ei baratoi i arwain y buddsoddi a chefnogi'r ymdrechion ar draws y bartneriaeth i dderbyn cynigion ac achosion busnes ar gyfer penderfynu arnynt a buddsoddi ynddynt yn y dyfodol. Bydd Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn arwyddo'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ac yn cefnogi penderfyniad gan gyfarfod yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd yn y dyfodol.

3.3. Yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol mae crynodeb o Brosiectau, gweithgareddau a cherrig milltir Blwyddyn 1 a 2. ***Atodiad 2*** yw rhan hon y ddogfen i gefnogi penderfyniad ar agweddau allweddol ar raglen y Parth Buddsoddi ym Mlwyddyn 1 a 2. Bydd y rhestr prosiectau yn esblygu dros amser ac adroddir arnynt i'r CBC a Bwrdd Ymgynghorol y Parth Buddsoddi.

3.4. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fapiau Safleoedd Treth y Parth Buddsoddi ar 14 Hydref 2025. Gellir gweld y rhain yma.

3.5. Mae'r Offeryn Statudol sydd wedi'i gyhoeddi ac sy'n dangos bod y Safleoedd Treth yn dod i rym ar 21 Tachwedd 2025 ar gael yma.

3.6. Ar 14 Hydref 2025, aeth Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam â phapurau'r Cyngor gerbron cyfarfodydd y Cabinet a'r Bwrdd Gweithredol i gadarnhau egwyddorion y Parth Buddsoddi ac fe gafodd y Cyngor gymeradwyaeth i ffurfio Memorandwm Dealltwriaeth y Parth Buddsoddi arfaethedig gyda'r CBC, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Cytundeb Rhyng-Awdurdod

3.7. Mae'r bartneriaeth rhwng y CBC, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r Parth Buddsoddi. Fel y Corff Atebol, mae gan y CBC atebolrwydd sylweddol am gyflawni'r Parth Buddsoddi'n llwyddiannus. Yn nhermau llywodraethu dyma'r prif gyfrwng ar gyfer y prosesau ariannu, tynnu i lawr a sicrwydd. Bydd yn ymrwymo i'r MOU gyda'r llywodraethau ar gyfer cyflawni'r Parth Buddsoddi ac yn atebol am dynnu i lawr y cyllid. Ar y llaw arall, mae ganddo hefyd bartneriaeth gydfuddiannol gyda'r Cynghorau sydd angen cefnogi llywodraethu effeithiol a phriodol, eglurder ynghylch y trefniadau hyn a mecanweithiau i gefnogi cyflawni'r Parth Buddsoddi yn dilyn y cymeradwyaethau ffurfiol.

3.8. Ar y cyd gyda'r Cynghorau, mae'r CBC dros y 12 mis diwethaf wedi cymeradwyo a chefnogi datblygiad y Parth Buddsoddi drwy'r broses Porth. Mae wedi cytuno ar y strwythurau llywodraethu a'r trefniadau i gefnogi cyflawni. Mae'r rhain bellach wedi'u hymgorffori yn yr IAA arfaethedig, yn ogystal â'r mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ymgynghori.

3.9. Yn ychwanegol, mae'n nodi'r telerau ar gyfer cyflawni, yn ogystal â rhai o'r dyraniadau refeniw a chyfalaf i'w gwario gan Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd yr IAA yn anelu at alluogi cyn gymaint â phosibl i gyflawni ym Mlwyddyn 1 gan y ddau Gyngor, fel yr amlinellir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 1 (2025/26). Bydd hefyd yn darparu templed cytundeb cyllido i gefnogi'r cyflawni. Bydd yr ymrwymiadau penodol i ddarparu cyllid refeniw i Sir y Fflint a Wrecsam mewn perthynas â'r Uned Rheoli a Chynllunio Rhaglenni yn cael eu hymgorffori yn y cytundeb fel ymrwymiad cytundebol.

3.10. Mae'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod drafft wedi'i atodi fel ***Atodiad 1***.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

3.11. Ynghlwm yn ***Atodiad 3*** mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft ar gyfer Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sail i'r Llywodraeth gytuno

â'r CBC ar y trefniadau cymeradwyo a chyflawni ar gyfer y rhaglen Parth Buddsoddi yn Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd Llythyr Cynnig Grant 'confensiynol' gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r MCDd. Bydd taliadau blynyddol yn cael eu gwneud yn unol â'r MCDd, y Llythyr Cynnig Grant a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol. Awdurdod dirprwyedig a roddwyd i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y CBC i gytuno ar MCDd terfynol. O ystyried yr amseru a'r diwygiadau i'r MCDd, penderfynwyd cyflwyno'r ddogfen i'r CBC gan fod y drafft terfynol wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Yr argymhelliad yw bod y CBC yn cymeradwyo'r MCDd ar y sail y bydd yr IAA yn cynnwys indemniadau ar gyfer y CBC gan y Cynghorau mewn perthynas â pherfformiad yr amodau.

3.12. Mae'r MCDd wedi'i farcio fel cyfrinachol. Mae hyn yn ofyniad gorfodol gan fod Llywodraeth Cymru wedi datgan nad yw'r ddogfen yn cael ei gwneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd.

4. GOBLYGIADAU ARIANNOL

4.1. Mae goblygiadau ariannol y Memorandwm o Ddealltwriaeth yn ymwneud â'r dyraniad cyllid o £160m ar gyfer y Parth Buddsoddi. Bydd y trefniadau manwl ar eu cyfer yn cael eu nodi mewn Llythyr Arian Grant a fydd yn cael ei rannu gyda'r CBC unwaith y bydd wedi cyrraedd. Mae'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn nodi'r goblygiadau ariannol i'r CBC a'r Cynghorau partner.

5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Bydd y Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn nodi'r goblygiadau cyfreithiol ar gyfer gweithio a chyflawni mewn partneriaeth rhwng y CBC a'r ddau Gyngor partner. Mae hon yn ddogfen ochr yn ochr â'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a'r llythyrau ariannu. Bydd yn sail i'r bartneriaeth rhwng y CBC fel Corff Atebol a'r Cynghorau.Yn y ddogfen, fe ymgorfforir y trefniadau llywodraethu sy'n cael eu cymeradwyo. Ei nod yw hwyluso cyflawni'r Parth Buddsoddi, rhoi eglurder am y rolau a'r atebolrwydd gan ddarparu model llywodraethu cytûn i gefnogi'r gwaith cyflawni. Mae'n ddogfen sy'n adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â datblygu'r Parth Buddsoddi drwy'r CBC a'r Cynghorau a'u hymgorffori mewn trefniant cyfreithiol rhwymol. Adroddwyd am y cynnwys a'r cyd-destun cyffredinol i gyfarfod o'r CBC ar 19 Medi 2025 - linc i'r adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad 1:	Cytundeb Rhyng-Awdurdod drafft
Atodiad 2:	Prosiectau, gweithgareddau a cherrig milltir Blwyddyn 1 a 2
Atodiad 3:	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft [EITHRIEDIG]

DOGFENNAU CEFNDIROL:

- Parthau Buddsoddi yng Nghymru: dogfen dechnegol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwyf wedi cynghori ar yr adroddiad, yn benodol mewn perthynas â'r IAA sydd wedi bod gyda Geldards LLP. Mae eisoes yn cael ei drafod gyda Gwasanaethau Cyfreithiol Sir y Fflint a Wrecsam. Mi fydd yn cael ei gwblhau fel rhan o'r broses gymeradwyo gyffredinol ac ar y cyd â'r MOU gyda'r llywodraethau."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r penderfyniadau a geisir yn gam arwyddocaol wrth sefydlu'r Parthau Buddsoddi. Rwyf wedi cael hysbysu am y Cytundeb Rhyng-Awdurdod drafft fel yr oedd yn cael ei ddatblygu ac wedi cael y cyfle i wneud sylwadau ar ei gynnwys.

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniadau a geisir o safbwynt ariannol."